# COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Medi 14eg, 2016 am saith o'r gloch

**PRESENNOL**

John Gwilym Jones (Cadeirydd), John E. Griffiths, Wyn Griffiths, Gwilym Hughes, Robert M. Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, O. Hefin Roberts, R. Phillip Roberts, William B. Williams, Cynghorwyr John B. Hughes a R.H. Wyn Williams (Cyngor Gwynedd)

**YMDDIHEURIADAU**

Thelma Cordingley, Alun Jones (Is-gadeirydd), Erfyl W. Roberts

Croesawodd y Cadeirydd a diolch i bawb am ddangos diddordeb ac ymweld â chynllun tai fforddiadwy Stád Cornwall, Mynytho, cyn cyfarfod heno.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cyng. Catherine Ll. Morris a'r Clerc fuddiant yn Eitem 9. Gohebiaeth ng) Henry Jones (Cricieth) Ltd. – Mynwent y Bwlch, oherwydd cysylltiad CLlM â'r cwynwyr ar y naill law a'r Clerc â'r ymgymerwr ar y llall.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Orffennaf 25ain, 2016 yn gywir ar ôl cywiro mai Cyng. John Gwilym Jones yw Cadeirydd y Cyngor erbyn hyn ac nid Cyng. Robert M. Jones (Cyn-gadeirydd) ac, yn yr un modd, Cyng. Alun Jones yw'r Is-gadeirydd.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| C16/0638/39/LL | Dyluniad Diwygiedig i estyniad a ganiatawyd gan Ganiatâd Rhif C14/0215/39/LL – Cilfan, Lôn Gwydryn, Aber-soch **– Cefnogir, yn dilyn derbyn cais diwygiedig, ond ni dderbyniwyd eglurhad pam goediwyd y to yn y cyfamser** |
| C16/0549/39/LL | Adeiladu sied storio – Deucoch Caravan Site, Sarn Bach ***[Derbyniwyd dyfarniad cyn ei drafod – caniatawyd ag amodau]*** |
| C16/0734/39/TC | Gwybodaeth Cynghorwyr Unigol – Cais Tystysgrif Defnydd Cyfreithloni – Defnyddio tir ar gyfer lleoli naw carafán deithiol ar dir ble daeth safle Clwb Carafannau i ben yn 2005 **–** Bryn Bach Camp Site, Bwlchtocyn |
| C16/0735/39/TC | Gwybodaeth Cynghorwyr Unigol – Cais Tystysgrif Defnydd Cyfreithloni – Defnyddio tir ar gyfer lleoli pebyll a 'motor |

| | |
|---|---|
| | homes' ac yn cynnwys wyth cysylltiad trydanol – Bryn Bach Camp Site, Bwlchtocyn |
| C16/0877/39/LL | Diddymu Amod 7 o Ganiatâd Cynllunio C13/0736/39/LL sydd yn ymwneud â thystysgrif terfynol côd cartrefi cynaliadwy – Cyn-safle Harbour Hotel, Aber-soch ***[Derbyniwyd dyfarniad cyn ei drafod – caniatawyd ag amodau]*** |
| C16/0931/39/LL | Cais Diwygiedig **–** Adeiladu pwll nofio awyr agored, ystafell beiriannau i'r pwll nofio, ynghyd â strwythur cegin haf yn cynnwys popty pizza a barbaciw ag echdynnydd mecanyddol, terasau, tirlunio a ffens derfyn – Blaen y Wawr, Lôn Engan, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd agosatrwydd corn simna'r popty at gymdogion** |
| C16/0938/39/LL | Estyniad llawr cyntaf uwchben y modurdy, porth blaen, balconi cefn, decing ac addasiadau – Melville House, Lôn Tŷ Gwyn, Aber-soch **– Cefnogir** |
| C16/0875/39/LL | Dymchwel cwt glan y môr presennol a chodi un newydd yn ei le – Cwt Glan Môr 28, Borth Fawr, Aber-soch **– Cefnogir ar yr amod y cedwir at yr un maint â'r cwt presennol** |
| C16/0980/39/LL | Estyniad unllawr blaen a chefn, codi to brig dros do fflat cefn, balconi blaen ac addasiadau – Bron Heulog, Aber-soch **– Cefnogir** |
| C16/0991/39/TR | Codi llinell drydan newydd a dymchwel rhannau o un bresennol – Aber-soch i Gaereglwys, Aber-soch **– Cefnogir** |
| C16/0999/39/LL | Dymchwel tŷ annedd ac adeiladau allanol presennol a chodi tri tŷ (tref) newydd a gwaith cysylltiedig – Glenville, Aber-soch **– Gwrthwynebir, oherwydd eu bod yn orddatblygiad ac anghymarus â thai cyfagos sy'n newid cymeriad y pentref unwaith yn rhagor. Derbyniwyd copi, er gwybodaeth, o lythyr gwrthwynebiad oddi wrth gymydog hefyd.** |
| C16/1033/39/LL | Adeilad sied amaethyddol newydd yn cynnwys storfa slyri integrol – Bodwi, Mynytho – **Cefnogir** |
| C16/1037/39/LL | Adeiladu balconi ar y cefn – 24 Tan y Gaer, Aber-soch **– Cefnogir** |
| C16/1039/39/LL | Dymchwel modurdy presennol ac adeiladu un newydd – Ger y Môr, Stryd Fawr, Aber-soch **– Cefnogir** |
| C16/1085/39/LL | Dymchwel tŷ ac adeilad allanol presennol ac adeiladu tŷ annedd newydd a gwaith cysylltiol – Tŷ Mawr Cottage, Tŷ Mawr, Aber-soch **– Gwrthwynebir, oherwydd bod angen cadw'r gwreiddiol ac mae'r cynllun ar gyfer tŷ mwy o faint, ynghyd â dymchwel un o dai cynhenid, hynaf, Aber-soch unwaith yn rhagor** |

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

i) ***Tyddyn Callod, Aber-soch***

- Gweithiodd drws toiledau'r dynion yn ddi-drafferth tan ganol yr wythnos cyn Gŵyl Banc mis Awst ond, unwaith yn rhagor, torrodd y 'clicied' ac, o ganlyniad, bu'n rhaid ei adael ar agor trwy'r amser. Oherwydd hynny, mynnai rhywun gadw drws y merched ar agor â charreg – gosodwyd arwydd ar y ddau ddrws yn egluro'r sefyllfa. O ganlyniad, collodd y Cyngor gryn dipyn o arian. Cysylltwyd â CS Aluminium ar y ffôn a thrwy e-bost sawl gwaith ond, ni dderbyniwyd ymateb tan yn hwyr prynhawn yma pan ymddiheurodd Sharon Edwards, Cyfarwyddwr, ei bod mewn cyfarfod ac y cysylltai fory gyda chynllun bwriad. Dywedodd y Clerc y galwai yn y gweithdy ym Mwcle ar ei ffordd i Lerpwl fory.
- Dywedodd Gareth Jones, Rheolwr y Cynllun, na chafodd drafferth fel hyn o'r blaen ag unrhyw ddrws ond, bod gan bron bob adeilad cyhoeddus ei broblemau, yn enwedig pan gaiff lawer o ddefnydd. Ychwanegodd fod y sefyllfa hon yn wahanol i unrhyw un arall, gan nad oes neb wrth law pan aiff rhywbeth o'i le. Awgrymwyd ei wahodd i gyfarfod safle pan ddaw peiriannydd CS Aluminium eto.
- Adroddwyd fod cloeon toiledau cyhoeddus Pwllheli a Nefyn yn ddidrafferth – holir amdanynt.
- Deallwyd mai'r glanhawyr sy'n agor a chau erbyn hyn, gan fod yr oriau ychwanegol yn effeithio ar fudd-daliadau'r person lleol er na hysbyswyd y Clerc o hynny.

ii) ***Toiledau Cyhoeddus Gwynedd***
Ymestynnwyd y dyddiad ymateb ymhellach i Hydref 1af. Derbyniwyd dadansoddiad manylach o'r costau a phenderfynwyd estyn gwahoddiad i Anwen Davies, Rheolwr Cyswllt Mentrau Cymdeithasol, fynychu cyfarfod mis Hydref i drafod y cynllun yn iawn.

b) **Gwefan y Cyngor**
O'r diwedd, bydd y wefan yn fyw yr wythnos nesaf... Golygodd baratoi'r dogfennau ac ati gryn dipyn o waith ychwanegol at ddyletswyddau arferol y Clerc dros y misoedd diwethaf.

c) **Glanhau Afon Soch**
Ni dderbyniwyd ymateb pellach oddi wrth Roberts Ffestiniog er cysylltu eto ar ôl cyfarfod mis Gorffennaf.

ch) **Cheshire Lamont – Gwesty'r Harbwr/Llwybr Estyllog at lan Afon Soch**

i) ***Cynllun Tai*** – Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth y datblygwyr yn dilyn gofyn a benderfynwyd ar yr enw eto, yn arbennig gan fod y datblygiad yn tynnu at ei derfyn.

ii) ***Wayleave –*** Derbyniwyd galwad ffôn oddi wrth ScottishPower – ni allai'r ferch ddarganfod unrhyw gofnod am y wayleave ond, o geisio cysylltu â'r swyddog a ohebodd gyntaf, deallodd ei fod ar gyfnod tadolaeth ar hyn o bryd; cysylltir â gwybodaeth cyn gynted â phosibl.

iii) ***Llwybr Estyllog*** – Cynhaliwyd y gwaith profi dyfnder/caletwch ar Awst 25ain ond, ni dderbyniwyd yr adroddiad swyddogol; penderfynwyd aros amdano cyn penderfynu'n derfynol anghofio am y bwriad o greu'r llwybr, gan fod y gost mor uchel. Derbyniwyd anfoneb (£784.74 – gweler 13. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod) am y gwaith ond, ni dderbyniwyd anfoneb y contractwr hyd yma.

d) **Archwiliad Cyfrifon 2015 – 2016**
Derbyniwyd cais am fwy o dystiolaeth a gwybodaeth am y cyfrifon oddi wrth BDO, Yr Archwilwyr Allanol – fe'u hatebwyd drwy ddweud na chyfarfa'r Cyngor tan heno ond, ni dderbyniwyd ymateb i hynny; penderfynwyd bod rhaid cael arweiniad pellach i greu cyllideb ac ati.

dd) **Tai Fforddiadwy Cornwall, Mynytho**
Diolchodd y Cadeirydd eisoes i bawb a ymwelodd â'r tai – pawb yn hapus ac wedi'u plesio â hwy, gan obeithio y bydd yn gynllun llwyddiannus. Deallwyd y gwerthwyd dau yn bendant ac y dangoswyd diddordeb yn y saith arall. Gobeithid y denir mwy pan gwblheir y tai i gyd a wynebu ffordd y safle. Derbyniwyd ateb a chopi eglurhaol i ymholiad y Cadeirydd am ewyllysio'r tai – dim problem.

e) **Graddfeydd Cyflogau Clercod 2016 – 2018**
Trefnir cyfarfod o'r Is-bwyllgor i drafod cyflog y Clerc.

f) **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl) Gwynedd a Môn**

i) ***Amserlen Ddrafft yr Archwiliad***
Mynychodd Cyng. Wyn Williams y cyfarfodydd Cyn-wrandawiad a rhoddodd adroddiad byr o'r hyn a drafodwyd. Cynhelir gwrandawiad ar y ddarpariaeth tai tu allan i'r ffin ddatblygu yn Aber-soch ar Fedi 29ain – caniateir iddo siarad ynddo – gan nad ydynt yn dderbyniol gan y Cyngor.

ii) ***Ymgynghoriad ar Ganllawiau Cynllunio Atodol a'r CDLl ar y Cyd – CCA Cynllunio a'r Iaith Gymraeg***
Anfonwyd sylwadau'r Cyngor erbyn Awst 12fed.

iv) ***Cylch yr Iaith – Asesiad Effaith Ieithyddol Annibynnol o'r CDLl***
Ymatebwyd i'r uchod ac, fel yr adroddodd Cyng. Wyn Williams yn y cyfarfod diwethaf – roedd yn asesiad diddorol a gwerth ei ddarllen.

ff) **Adran Rheoleiddio – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Creu Gorchymyn Diogelu Coed – Glyn, Mynytho**
Derbyniwyd copi o gadarnhad yr uchod.

g) **Henry Jones (Cricieth) Ltd. – Mynwent y Bwlch**

- Nis anfonwyd Rheolau'r Fynwent, a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2011 – at yr uchod oherwydd, yn dilyn derbyn copi o rai Cynghorau Cymuned Aberdaron a Llanbedrog er gwybodaeth, teimlid bod angen eu diwygio a'u diweddaru.
- Derbyniwyd cwynion pellach, drwy lythyr ac yn llafar am y fynwent – ategwyd hyn gan Cyng. John B. Hughes – am leoliadau'r beddi. Adroddodd y Cadeirydd y cynhaliwyd cyfarfod â'r ymgymerwr/torrwr beddau i'w gwyntyllu ac ymddiheurodd am yr hyn a ddigwyddodd; anfonir llythyr ato hefyd. Cynhelir cyfarfod o'r Is-bwyllgor (Cadeirydd, Is-gadeirydd, GH, EWR, WBW) i'w trafod ymhellach.

[Gadawodd Cyng. John B. Hughes y cyfarfod yn dilyn y drafodaeth uchod.]

ng) **Swyddog Monitro – Ymgynghoriad Teithio Llesol**
Anfonwyd sylwadau a derbyniwyd galwad ffôn ac e-bost yn egluro na chyrhaedda'r gymuned hon ofynion Deddf Teithio Llesol, sef sefydliadau â phoblogaeth o ddwy fil neu fwy. Ychwanegodd y cynhwyswyd gwelliannau rhwng Llanbedrog ac Aber-soch yng Nghynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru 2015 a chan fod gan y cynlluniau uchelgeisiol hyn amserlen o rhwng pump a deng mlynedd, ni ragwelir beth fydd ymrwymiad y Llywodraeth parthed ei gronfeydd trafnidiaeth. Efallai y bydd cyfleon pan gyflwynir y broses o gynhyrchu Mapiau Integredig Rhwydwaith Gwynedd i'r Llywodraeth ym mis Medi 2017.

h) **Cyril Jones, Mynytho – Masnachu ar y Stryd yn Aber-soch**
Hysbyswyd Adran Gyfreithiol y Cyngor am yr hyn a ddarganfu Cyril Jones yng nghofnodion Chwefror 11eg, 1981 ac atebwyd y gwneir nodyn ohono, ynghyd â nodi na ddaethpwyd o hyd i'r Is-ddeddf.

i) **Ceisiadau Cynllunio – C16/0629/39/LL – Diddymu Amodau 3 a 4 o Ganiatâd Cynllunio C13/0594/39/LL er mwyn defnyddio uned wyliau bresennol fel tŷ annedd – Tafliad Carreg, Llysfor, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth yr Adran Gynllunio yn dilyn gofyn am eglurhad pam y caniatawyd yr uchod.

5. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Mynedfa Newydd Castell, Lôn Pont Morgan, Aber-soch**
Ni dderbyniodd yr Uwch Swyddog Gorfodaeth gais cynllunio oddi wrth berchennog Castell parthed y fynedfa er gadael neges iddo.

6. **MATERION PRIFFYRDD**

a) **Dŵr Cymru – Dŵr a Charthffosiaeth yn dod o 'fanol' ger Bryncelyn Isaf, Cilan, a Than-y-Bryn, Sarn Bach**
Cwblhawyd y gwaith erbyn hyn a chedwir golwg arno dros y gaeaf. Adroddodd GH yr ymwelodd swyddogion â chamerâu i asesu'r draen ddoe;

roedd yn byrlymu eto yn dilyn glaw mawr dydd Sadwrn. Eglurwyd wrtho fod trafferthion â'r peipiau sy'n dod lawr o Fwlchtocyn a Chilan i Sarn Bach ac yr ymchwilir iddynt eto.

b) **Golau Stryd ar Lôn Hawen, Aber-soch**
Gosodwyd y polyn a gobeithid fod wedi cwblhau gosod y lamp heddiw ond, oherwydd problem ym Mhwllheli ni lwyddwyd; cysylltir i gadarnhau.

7. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

Ni dderbyniwyd ymateb pellach oddi wrth Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy – credir ei fod ar ei wyliau – parthed yr isod:

a) ***Llwybr 18 – Mynydd Cilan i Garreg Lwyd***
Penderfynwyd trefnu cyfarfod eto pan fydd DWO ar gael.

b) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***
Ni chafodd y Clerc gyfle i edrych trwy'r hen ffeil llwybrau cyhoeddus i chwilio am y llythyr nac unrhyw ohebiaeth arall yn ystod y gwyliau.

c) ***Torri'r Llwybrau***
Derbyniwyd anfoneb y contractwr (£6480.00) – gweler 13. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod. Nododd y disgynnodd coeden dros y llwybr ger yr orsaf garthffosiaeth ac y torrodd y brigau/canghennau amlycaf er mwyn hwyluso ei phasio; pydrodd coed y bont sy'n croesi'r cwrs golff ac awgryma bod angen gosod bolard ger Capel Cilan, gan fod y perchnogion yn parcio ar draws y llwybr.

ch) ***Giât Fochyn yn Riffli (Llwybr 12)***
Dim pellach.

8. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**
i) ***Cyngor i Gynghorau Cymued a Thref ar Weithio â Phobl Ifanc***
Copi, er gwybodaeth, o'r canllawiau uchod.
ii) ***Cynigion Cynhadledd ULlC – Hydref 1af, 2016***
Copi o'r cynigion a dderbyniwyd oddi wrth aelod-gynghorau.
iii) ***Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor – Medi 14eg, 2016***
Ymddiheuriwyd na fuasai neb yn bresennol, gan fod y Cyngor yn cyfarfod heno.
iv) ***Rhaglen Hyfforddi Medi – Rhagfyr 2016***
Copi, er gwybodaeth.

b) **Llywodraeth Cymru – *Ymgynghoriad ar Strategaeth y Gymraeg***
Angen sylwadau erbyn Hydref 31ain, 2016.

c) **Came & Company – Yswiriant y Cyngor 2016 – 2017**
Yn dilyn derbyn tri phris adnewyddu oddi wrth yr uchod – Aviva (£2287.01), Hiscox (£2074.39) ac Ecclesiastical (£2178.11) – cysylltwyd â Zurich Municipal ac AON Affinitiy i ofyn am brisiau er mwyn eu cymharu. Zurich oedd yr unig un a ymatebodd â phris o £998.45 a chyn ei dderbyn awgrymwyd gofyn i Came & Company a allai Hiscox (y rhataf o'r tri) ostwng ei bris.

ch) **Cymorth Cynllunio Cymru**

i) ***Cynllunio i Gymunedau***
E-lythyr er gwybodaeth, ynghyd â chopi sleidiau Pwynt Pŵer ar 'Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015: Goblygiadau i Gynghorau Cymuned a Thref'.

ii) ***Hyfforddiant ar Gynllunio i Gynghorau Cymuned a Thref***
Cynhelir yr uchod yn Yr Institiwt, Cyngor Tref Caernarfon, nos Fawrth, Medi 27ain rhwng 6.30 a naw o'r gloch.

d) **Luke O'Connor – Prosiect Tanddaearu Ceblau Tir Comin Mynytho**
Prosiect i wella'r tirlun drwy danddaearu ceblau trydan ac y ceid Wayleave gan eu bod ar dir y Cyngor; dim gwrthwynebiad.

dd) **Barry Davies, Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig – Cwyn am Faw Cŵn ar Lwybr Porth Neigwl**
Copi, er gwybodaeth, o ateb yr uchod at y gwynwraig am y llwybr i'r traeth. Noda, hefyd, wrth ddweud nad oes gwaharddiad cŵn ar draeth Porth Neigwl a bod posibilrwydd yr adolyga Cyngor Gwynedd yr ardaloedd hyn yn ystod y flwyddyn nesaf.

e) **Llywodraeth Cymru – Taliadau Gwledig Cymru – Hysbysiad Trosglwyddo Tir**
Llythyr yn gofyn am gadarnhad trosglwyddo tir Pen y Mynydd i'r deilydd am gyfnod o ddeng mlynedd (01/10/2015 – 30/09/2025).

f) **Adran Rheoleiddio – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Apêl dan Adran 78(i): C15/1349/39/RC – Ocean Crossing, Bwlchtocyn – Diddymu Cytundeb 106 Angen Fforddiadwy**
Hysbysiad o'r uchod ar sail Gwrandawiad Anffurfiol – anfonwyd sylwadau'r Cyngor hwn eisoes.

ff) **Cyng. Wyn Williams – Cae Chwarae Aber-soch**
Derbyniodd gais gosod *astroturf* ar y cae pêl-droed, ynghyd â'i ailenwi'n 'Cae Eddie's Field' er cof am ŵr ifanc lleol a fu farw'n ddiweddar. Gofynnwyd pwy fyddai'n gyfrifol am gynnal a chadw'r cae wedyn a faint yn union fuasai'r gost; ymholir ymhellach erbyn cyfarfod mis Hydref.

g) **Clorian Cymru – Teledu Cylch Cyfyng**
Derbyniwyd anfoneb (£246.00) am atgyweirio'r camerâu yn Nhalafon (gweler 13. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod), ynghyd ag amcanbris am

gamerâu newydd/uwchraddio a rhai i'r toiledau oherwydd y trafferthion a gafwyd dros y gwyliau. Soniodd y contractwr bod modd cael nawdd drwy'r Heddlu. Ategodd Cyng. Wyn Williams hyn trwy ddweud mai arian a atafaelwyd gan droseddwyr ydyw a bod angen gwneud cais i Gomisiynydd yr Heddlu cyn Medi 30ain – penderfynwyd nad oedd dim i'w golli o ymgeisio.

ng) **Comisiwn Ffiniau i Gymru – Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru – Cynigion Cychwynnol**
Llythyr yn hysbysu'r uchod – angen sylwadau erbyn Rhagfyr 5ed.

12. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO AC YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS**

| | |
|---|---|
| C16/0180/39/LL | Adeiladu estyniad unllawr cyntaf uwchben y modurdy, ynghyd ag estyniad unllawr â theras ar ran o'r to – 82 Cae Du, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau** |
| C16/0549/39/LL | Adeiladu sied storio – Deucoch Caravan Site, Sarn Bach – **Caniatawyd ag amodau** |
| C16/0622/39/LL | Dymchwel tŷ gwydr ac adeiladu estyniad at allandy presennol i ffurfio ystafell haul – Pen y Benar, Lôn Traeth, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau** |
| C16/0628/39/LL | Estyniad unllawr cefn, ymestyn modurdai presennol a chyfnewid to fflat ag un brig – 11 Stád Sant Tudwal, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau** |
| C16/0717/39/AC | Rhyddhau Amodau: 8 – Lleoliad clwydfan ystlumod, 9 – Cyflwyno diweddariadau i'r adroddiad lliniaru ystlumod, 11 – ymwneud â gwaredu llysiau'r dial, 12 – Cynllun Rheoli Bioamrywiaeth, 13 – Datganiad dull, 14 – Cynllun Atal Llygredd a 19 – gwaith ger Afon Soch o Ganiatâd Cynllunio C15/0383/39/LL – Riverside Hotel, Aber-soch – **Caniatawyd rhyddhau pob amod ar wahân i 19** |
| C16/0877/39/LL | Adeiladu estyniad unllawr at ochr dde yr eiddo (Cynllun Diwygiedig i'r hyn a wrthodwyd dan Gais Rhif C15/0664/39/LL) – Cyn safle Harbour Hotel, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau** |

**YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS**

| | |
|---|---|
| C16/0832/39/YM | Gwelliannau ac ymestyn tŷ annedd – The Lodge, Haulfryn, Stryd Fawr, Aber-soch |
| C16/0868/39/YM | Adeiladu estyniad i ystafell waith i greu lolfa wydr – 27 Maes Gwydryn, Aber-soch |

13. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

**Taliadau**
Cadarnhawyd talu cyflog mis Awst a Medi'r Clerc (Rh/S 002008 a 002009), ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Cyngor Gwynedd – £353.06 (Rh/S 002007 – Gwagio Biniau Baw Cŵn)
b) Griffith Gardening – £6480.00 (Rh/S 002010 – Torri Llwybrau'r Gymuned)
c) Datrys Consulting Engineers Ltd. – £784.14 (Rh/S 002011 – Costau Ymchwiliad Peirianyddol Coed yr Allt)
ch) Clorian Cymru – £246.00 (Rh/S 002012 – Atgyweirio Teledu Cylch Cyfyng)
d) Elfyn Hughes – £1600.00 (Rh/S 002013 – Torri Gwellt Estyniad y Fynwent)
dd) Zurich Municipal – £998.45 (Rh/S 002014 – Yswiriant y Cyngor)

**Derbyniadau**

a) Arian Mynediad y Toiledau – £901.89 (£150.30, £60.00, £214.74, £82.75, £80.45, £117.80, £74.60, £42.75, £52.30, £12.00 a £14.20)
b) Cyngor Gwynedd – £25,000 (Ail-daliad Praesept 2016 – 2017)

14. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Hydref 12fed, 2016 am saith o'r gloch

Cyn diweddu'r cyfarfod, cyhoeddodd y Cyn-gadeirydd, Cyng. Robert M. Jones, y cyflwynodd Gwpan y Cadeirydd i Mrs. Cathy Cox, Llanengan, am ei gwaith diflino yn y gymuned. Ychwanegodd na ddymunai unrhyw gyhoeddusrwydd.